# DEWIS Fy NghHTh

# Ymgeiswyr am Ardal Heddlu De Cymru

Mae etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal ar 2 Mai yng Nghymru a Lloegr.

Darganfyddwch pwy yw eich ymgeiswyr lleol a sut i bleidleisio.

# Cynnwys


Ynglŷn â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu 02

Sam Bennett
Welsh Liberal Democrats – Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 04

George Carroll
Conservative Candidate – More Police, Safer Streets 06

Dennis Clarke
Plaid Cymru – The Party of Wales 08

Emma Wools
Labour and Co-operative Party/Llafur a'r Blaid Gydweithredol 10

Datganiad gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ar gyfer De Cymru 12

# Ynglŷn â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu

**Ar 2 Mai, byddwch yn gallu pleidleisio dros eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Rôl y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw bod yn llais y bobl a dal yr heddlu i gyfrif.**

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol i ddwyn eich heddlu i gyfrif am ddarparu'r math o blismona yr hoffech chi ei weld. Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd yn eu hardal heddlu ac yn anelu at leihau trosedd a darparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn dod â llais cyhoeddus i blismona ac maent yn gwneud hyn drwy:

- Ymgysylltu â'r cyhoedd a dioddefwyr troseddau i helpu i osod cynlluniau plismona a throseddu;
- Sicrhau bod cyllideb yr heddlu yn cael ei gwario lle bo'r pwys mwyaf; a
- Penodi'r prif gwnstabl, ei ddwyn i gyfrif am gyflawni ei amcanion, a'i ddiswyddo os oes angen.

Nid yw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn "rhedeg" yr heddlu. Mae Prif Gwnstabliaid yn parhau i fod yn gyfrifol am weithrediadau'r heddlu o ddydd i ddydd, ond maent yn atebol i'r cyhoedd drwy'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mewn rhai ardaloedd heddlu, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn gyfrifol am y Gwasanaethau Tân ac Achub, a chânt eu hadnabod fel Comisiynwyr Heddlu, Tân a Throseddu. At hynny, mewn rhai ardaloedd, nid oes etholiad ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu na

Chomisiynydd Heddlu, Tân a Throseddu – yn lle hynny, bydd etholiad ar gyfer maer a fydd yn cyflawni swyddi'r ddau gomisiynydd hyn neu weithredu pwerau cyfatebol.

Bydd 37 o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu hethol ledled Cymru a Lloegr, a bydd pedwar ohonynt yn Gomisiynwyr Heddlu, Tân a Throseddu – ceir yr olaf yn Cumbria, Essex, Swydd Stafford, a Swydd Northampton.

## Cydweithio ag eraill

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn gweithio gyda'ch cyngor a sefydliadau eraill i hyrwyddo a galluogi gweithio cydgysylltiedig ar ddiogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol. Fel unigolion a etholir yn uniongyrchol, maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio a chraffu effeithiol ar wasanaethau cyhoeddus. Wrth wneud hynny, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn rhoi sylw i fygythiadau trawsffiniol ar lefel genedlaethol, ac yn sicrhau bod ymateb plismona effeithiol ar waith.

## Cynrychioli'r gymuned gyfan

Mae'n ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu dyngu llw o ddidueddrwydd pan gânt eu hethol i'w swydd. Mae'r llw wedi'i gynllunio fel y gallant nodi'n gyhoeddus eu hymrwymiad i'r canlynol: gwasanaethu'r holl bobl yn eu hardal heddlu; gweithredu gydag uniondeb a diwydrwydd; rhoi llais i'r cyhoedd; gweithredu'n dryloyw fel y gellir eu dwyn i gyfrif yn effeithiol; a pheidio ag ymyrryd ag annibyniaeth weithredol swyddogion yr heddlu.

## Dewch o hyd i'ch ymgeisydd

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad yn ardal Heddlu De Cymru. Gallwch hefyd archebu copi o'r llyfryn hwn yn y fformatau canlynol: print bras, Braille a sain.

I osod eich archeb, ewch i **www.dewisfynghhth.org.uk** neu ffoniwch **0300 1311323**.

## Ynglŷn â'ch pleidlais

Mae angen i chi fod wedi cofrestru i allu pleidleisio.

Os nad ydych wedi cofrestru, ewch i **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio** neu cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Os ydych wedi cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio, gallwch naill ai bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, drwy'r post, neu drwy ddirprwy (gan ganiatáu i rywun rydych yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eich rhan).

Caiff Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hethol gan ddefnyddio system bleidleisio'r cyntaf i'r felin, lle mae'r ymgeisydd gyda'r mwyaf o bleidleisiau yn ennill. Bydd pleidleiswyr yn pleidleisio drwy ddewis un ymgeisydd yn unig ar y papur pleidleisio. Dyma'r un system ag a ddefnyddir ar gyfer etholiadau Senedd y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am eich pleidlais ewch i: **https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau**.

# Sam Bennett

Welsh Liberal Democrats –
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Welsh Lib Dems
Dem Rhydd Cymru

**Datganiad etholiad:**

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, fy mhrif flaenoriaeth fydd adfer ffydd, cysylltiadau ac ymgysylltiad cymunedol ar draws ardal Heddlu De Cymru.

Rhaid inni adennill ffydd y gymuned yn ein heddlu yn dilyn yr aflonyddwch yn Abertawe a Chaerdydd dros y 5 mlynedd diwethaf. Byddaf yn ceisio gwrthdroi toriadau i gyllid ar gyfer ymyriadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Rwyf hefyd am flaenoriaethu gweithgareddau allgymorth mewn cymunedau ac ysgolion i adeiladu pontydd ar draws ein cymunedau, gan olygu bod ein heddlu i'w gweld ar ein strydoedd unwaith eto.

Byddaf yn lleihau nifer y Dirprwy Gomisiynwyr ar draws Heddlu De Cymru, ac yn ail-fuddsoddi'r arian mewn plismona ar lawr gwlad. Byddaf hefyd yn ymgyrchu'n frwd dros ddatganoli plismona. Bydd y ddau bolisi hyn yn dod â phlismona yn nes at bobl Cymru. Byddaf yn lansio rhaglen o ymweliadau cymunedol ar unwaith i gael gwybod beth hoffech chi weld yr heddlu yn ei wneud yn eich ardal.

Nawr yw'r amser i fabwysiadu agwedd fwy tosturiol at droseddau cyffuriau. Felly, os caf fy ethol yn Gomisiynydd, byddaf yn blaenoriaethu ac yn gwthio'r ddwy lywodraeth i ganolbwyntio ar raglenni adsefydlu, oherwydd bydd hyn yn lleihau aildroseddu, ac yn lleddfu'r pwysau ar ein system llysoedd.

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, byddwn yn ceisio dod â'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau i ben gan ei fod yn amharu'n sylfaenol ar hawliau pobl i breifatrwydd ac yn gwahaniaethu yn erbyn poblogaethau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Fe'i defnyddir yn amlach mewn ardaloedd â phoblogaethau lleiafrifoedd ethnig uchel, ond nid yw'n adnabod pobl o'r cefndiroedd hyn yn effeithiol. Rhaid rhoi'r dechnoleg hon o'r neilltu i adennill ffydd ein cymunedau.

Paratowyd gan Matthew Palmer (Asiant Etholiad) yn
68 Brynymor Road, Gowerton, Swansea, SA4 3EZ.

**Manylion Cyswllt**

Gwefan: **https://www.demrhydd.cymru/**

## George Carroll

Conservative Candidate –
More Police, Safer Streets



Conservatives
Ceidwadwyr

**Datganiad etholiad:**

**Dw i wedi byw yn Ne Cymru drwy fy holl fywyd. Mae cymuned wrth galon popeth dwi'n credu.**

Dyna pam fy mod yn gwasanaethu fel cynghorydd lleol a llywodraethwr ysgol. Dyna pam rydw i mor angerddol am wneud ein cymunedau'n ddiogel. A dyna pam rydw i'n sefyll i fod yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu chi.

Rydw i wedi bod yn gweithio gyda thrigolion ar draws De Cymru ar gynllun i amddiffyn ein cymunedau.

**Bydd ein Cynllun yn:**

1. **Darparu mwy o heddlu, strydoedd mwy diogel** – drwy sicrhau bod yr holl ein hadnoddau'n canolbwyntio ar blismona craidd a gwasanaethau rheng flaen. Trwy gymryd mantais o bob grant llywodraeth ar gyfer recriwtio heddlu. A thrwy ragori ar dargedau recriwtio'r heddlu.

2. **Atal troseddau treisgar a gangiau cyffuriau** – drwy ddefnyddio stopio a chwilio effeithiol i wneud ein strydoedd yn ddiogel. A gweithio'n agos gyda'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol i chwalu gangiau cyffuriau rhyngwladol.

3. **Cael gwared ar ymddygiad gwrthgymdeithasol** – trwy gymryd agwedd dim goddefgarwch.

4. **Brwydro yn erbyn eithafiaeth** – trwy roi'r holl adnoddau sydd eu hangen i'r heddlu i'n hamddiffyn rhag terfysgaeth. A mynd ati i hyrwyddo rhaglen Prevent y llywodraeth i atal radicaleiddio.

5. **Rhoi'r gorau i ddwyn o siopau** – gyda phatrolau sy'n targedu 'hotspots'. A thrwy fuddsoddi mewn mwy o CCTV a gwyliadwriaeth.

6. **Cwtogi ar droseddu yng nghefn gwlad** – trwy gynnal tîm ymroddedig troseddau gwledig i warchod ein cymunedau a ffermydd cefn gwlad.

**Ond ni allaf gyflawni Ein Cynllun ar fy mhen fy hun. Rydym angen eich help i'w roi ar waith.**

Mae ein Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gosod blaenoriaethau strategol yr heddlu. Felly os byddwch yn fy ethol ar 2 Mai, byddaf yn gallu gweithredu Ein Cynllun.

Dyna pam rydw i'n gofyn i chi, pwy bynnag rydych chi'n ei gefnogi fel arfer, i ymuno â'ch cymdogion i roi benthyg eich pleidlais i mi.

**Drwy roi benthyg eich pleidlais i mi, byddwch yn helpu i gyflawni Ein Cynllun.**

Gyda'n gilydd, byddwn yn darparu mwy o heddlu a strydoedd mwy diogel. A byddwn yn gwneud ein holl gymunedau yn ddiogel.

Paratowyd gan Rebekah Fudge ar ran George Carroll y ddau o PYC Cymru, Caerdydd, CF14 5DU.

## Manylion Cyswllt

E-bost: **george.carroll@valeconservatives.org.uk**
Facebook – **https://www.facebook.com/profile.php?id=61558093280249** (George Carroll for South Wales Police and Crime Commissioner)
Twitter – **https://twitter.com/George4SWales** (@George4SWales)
Instagram – **https://www.instagram.com/george4swales/** (@george4swales)

# Dennis Clarke

Plaid Cymru – The Party of Wales



Plaid Cymru

Party of Wales

**Datganiad etholiad:**

Annwyl Gyfeillion,

Fy uchelgais yw i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a staff fod yn ffrindiau, gweision a hyrwyddwyr i chi ddatblygu Heddlu De Cymru i fod y gorau y gall fod. Dylech fod yn gyfforddus yn gweithio gyda nhw ac yn ymddiried ynddynt. Rwyf am i bob aelod o Heddlu De Cymru fod yn falch o helpu i ofalu am ein cymunedau.

Rwy’n gwybod beth sy’n mynd o’i le yn y system cyfiawnder troseddol. Gwn sut y dylai fod. Rwyf wedi bod yn gyfreithiwr cymorth cyfreithiol ac wedi cymryd rhan mewn llawer o bwyllgorau cyfiawnder ers tua 50 mlynedd. Mae fy ymrwymiad i wella’r system yn hir sefydledig.

Mae’r holl amser rwyf wedi ei dreulio yn gweithio i effeithio ar newid yn y gyfraith wedi bod yn baratoad ar gyfer rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae’r ddealltwriaeth sydd gen i o sut y gall ac y dylai pob rhan o’r System Cyfiawnder Troseddol berfformio heb ei ail.

I chi a’r System Cyfiawnder Troseddol yn unig y mae ymrwymiad.

Ni fyddaf yn byped o unrhyw un o’r awdurdodau a allai gyfyngu ar fy ngweledigaeth. Ni fyddaf yn apolegydd gwleidyddol dros benderfyniadau’r llywodraeth. Rwyf bob amser wedi bod yn poeni am bobl gyffredin ac yn brwydro drostyn nhw.

Roedd fy ngwybodaeth am y system a’r rhai sy’n gweithio ynddi yn profi i mi fod pawb yn y system eisiau ei gwneud y gorau y gall fod. Dyna pam y byddwn yn gallu cydweithio’n dda wrth ddefnyddio fy sgiliau.

Gyda fi, bydd eich pleidlais yn cael effaith. Rwy’n barod i ymgymryd â’r rôl a’r her.

Dewch gyda mi i gymryd rhan mewn brwydr wirioneddol am Dde Cymru well, gwell i ni i gyd.

Paratowyd gan Steffan Wiliam, 14 Friars Road, Y Barri ar ran Dennis Clarke

**Manylion Cyswllt**

Ffôn: 07425334139
Gwefan: **https://www.dennisclarkeplaid.cymru**
E-bost: **dennisclarkeplaid@gmail.com**
Instagram: **@dennisclarke4pcc**

# Emma Wools

Labour and Co-operative Party/
Llafur a'r Blaid Gydweithredol



**Datganiad etholiad:**

Yma yn Ne Cymru cefais fy ngeni, fy magu, rwyf yn byw ac yn gweithio. Mae fy nghalon a'm cartref yma yn ein dinasoedd bywiog, cymunedau tosturiol a threfi'r cymoedd lle rwyf wedi darparu gwasanaethau i atal trosedd ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed ers dros 23 mlynedd. Yn arweinydd arobryn, mae gennyf sgiliau a gwybodaeth o weithio mewn carchardai a'r gwasanaeth prawf, plismona a diogelwch cymunedol, a byddaf yn lleisio'ch barn ym maes plismona ac yn sefyll eich cornel ar y materion sy'n bwysig i chi.

Mae pobl De Cymru angen Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n gwybod yn uniongyrchol yr heriau sy'n ein hwynebu bob dydd yn ein cymunedau. Mae gen i'r profiad personol a phroffesiynol o fynd i'r afael â'r drosedd a'r niwed sy'n effeithio ar ble rydyn ni'n byw, ein teuluoedd a'n ffrindiau.

Mae gennyf hanes profedig o herio plismona a chyfiawnder troseddol fel Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru. Rwyf wedi arwain a rheoli partneriaethau ar draws cyfiawnder troseddol: mynd i'r afael â thrais ieuenctid, trais yn erbyn menywod a merched, cyffuriau a chamfanteisio. Rwy'n angerddol am weithio i wella bywydau'r rhai y mae eu

llais yn cael ei glywed yn llai aml, ond yn aml yn dioddef fwyaf, er mwyn sicrhau bod cyfiawnder yn deg a bod plismona yn cyflawni'r hyn sydd bwysicaf.

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu byddaf yn canolbwyntio ar….

- Plismona Cymunedol
- Atal trosedd
- Amddiffyn y bregus, cefnogi dioddefwyr a chymunedau, gan gynnwys y rhai ar-lein
- Rhoi Cyfiawnder i'r rhai sy'n troseddu a lleihau aildroseddu
- Gwneud Plismona yn addas ar gyfer y dyfodol

Pleidleisiwch i mi ar 2 Mai a byddaf yn gweithio gyda chi i gryfhau a gwella dyfodol plismona a chyfiawnder troseddol yn Ne Cymru, gan ddarparu gwasanaethau i'ch cadw'n ddiogel, y gall pob cymuned fod â hyder ynddynt.

Paratowyd gan Alvin Shum (Asiant Etholiad) yn 1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9HA.

# Datganiad gan y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu ar gyfer De Cymru

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr ymgeiswyr hynny (ble a ddarperir) a gwybodaeth arall sy'n ddefnyddiol i bleidleiswyr. Eu cyfrifoldeb hwy yw'r wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr, ac efallai na fydd yn adlewyrchu fy marn i na fy nghyngor.

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu, fi sy'n gyfrifol am gydlynu'r etholiad a chyhoeddi'r canlyniad yn Heddlu De Cymru. Bydd etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal yn

Heddlu De Cymru ar 2 Mai 2024; yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwnnw, yn nhrefn yr wyddor yn ôl cyfenw (fel y byddant yn ymddangos ar y papur pleidleisio), yw:

- BENNETT, Sam – Welsh Liberal Democrats – Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- CARROLL, George – Conservative Candidate – More Police, Safer Streets
- CLARKE, Dennis – Plaid Cymru The Party of Wales
- WOOLS, Emma – Labour and Co-operative Party/Llafur a'r Blaid Gydweithredol

Gallwch gysylltu â mi yn:

Karen Jones
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

etholiadau@npt.gov.uk
01639 763330
https://www.npt.gov.uk/etholiadau

Mae’r llyfryn hwn wedi’i argraffu ar bapur sydd i gyd wedi’i ailgylchu.

Pan fyddwch wedi gorffen gyda hwn, cofiwch ei ailgylchu.

*Cyhoeddir hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Phwyllgorau, 2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF*

PCC_De Cymru_BKT